WHC (2020)008

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ebrill 2020

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: LLYTHYR I WEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Canllawiau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar ailddefnyddio meddyginiaethau diwedd oes mewn hosbisau a chartrefi gofal

Dyddiad Dod i Ben / Adolygu: Mae'r cyngor hwn yn berthnasol yn ystod y pandemig COVID-19 yn unig.

I'w weithredu gan:
Prif Fferyllwyr; a Swyddogion Atebol Cyffuriau a Reolir

Camau i'w cymryd erbyn: Amh

Anfonwr: Y Gangen Fferylliaeth a Phresgrispiynu, Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Enw(au) Cyswllt AIGC Llywodraeth Cymru:
Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Dogfen(nau) amgaeedig: Llythyr y Prif Swyddog Fferyllol

CPhO/2020/01

Annwyl Gyfaill,

COVID-19: CANLLAWIAU AR AILDDEFNYDDIO MEDDYGINIAETHAU DIWEDD OES MEWN HOSBISAU A CHARTREFI GOFAL

Diben

1. Mae'r canllawiau yn rhoi cyngor a chymorth i sefydliadau'r GIG bennu trefniadau sy'n sicrhau mynediad amserol at feddyginiaethau diwedd oes i gleifion mewn cartrefi gofal a hosbisau, yn arbennig drwy ailddefnyddio meddyginiaethau a roddwyd ar bresgripsiwn i un claf gan gleifion eraill. Dim ond yn ystod y pandemig COVID-19 y mae'r canllawiau hyn yn gymwys.
2. Dylai Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) roi trefniadau ar waith i gefnogi'r ymarfer o ailddefnyddio meddyginiaethau diwedd oes mewn cartrefi gofal a hosbisau, mewn modd cyfyngedig, a hynny mewn amgylchiadau eithriadol. Dylai'r trefniadau hyn gael eu llywio gan weithdrefnau presennol sy'n cefnogi ailddefnyddio meddyginiaethau mewn ysbytai yng Nghymru. Dylai'r Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir a Phrif Fferyllydd y BILl perthnasol gytuno ar unrhyw drefniadau o'r fath.

Cefndir

3. Yn unol â Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 fel y'i diwygiwyd lle caiff meddyginiaeth ar bresgripsiwn ei ddosbarthu i berson yn unol â phresgripsiwn a archebwyd gan ymarferydd priodol, mae'n dod yn eiddo'r person a enwir ar y presgripsiwn. Golyga hyn mewn amgylchiadau arferol, ni ellir dosbarthu meddyginiaeth a roddwyd ar bresgripsiwn i un person i un arall.
4. Derbynnir yn y DU nad yw ailddefnyddio neu ailgylchu meddyginiaethau a roddwyd ar bresgripsiwn i un person yn arfer a argymhellir. Y sail resymegol am hyn yw pan fydd meddyginiaeth wedi'i rhoi ar bresgripsiwn, ni ellir gwarantu o dan ba amodau y storiwyd y feddyginiaeth ac felly, mae cryn risg y gall nad yw ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y feddyginiaeth yn cyrraedd y safon sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth neu gan reoleiddwyr proffesiynol. Fel arfer dylid dychwelyd meddyginiaethau nad ydynt wedi cael eu

Oddi wrth y Prif Swyddog Fferyllol

_____

Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

_____

CPhO/2020/001

Dosberthir yn electronig at:

Brif Weithredwyr, Prif Fferyllwyr, Swyddogion Atebol Cyffuriau a Reolir y BILlau,
Prif Fferyllwyr, a Chyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Cymru
Cyfarwyddwr, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Cymru
Prif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Fferyllfeydd cymunedol
Ymarferwyr Cyffredinol

I'w anfon ymlaen at:

Fferyllwyr y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Ymarferwyr Cyffredinol

_____

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Y Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
COVID-19.Pharmacy.Prescribing@gov.wales

© Hawlfraint y Goron 2020
Gellir atgynhyrchu'r cylchlythyr hwn am ddim gan bawb y'i cyfeiriwyd atynt.

defnyddio gan gleifion i fferyllydd ar gyfer cael gwared ohonynt yn ddiogel.	

5. Ceir pryderon cynyddol ynglŷn â gallu'r gadwyn gyflenwi i fodloni'r cynnydd yn y galw am feddyginiaethau diwedd oes yn ystod yr achosion o COVID-19. Bydd trefniadau a fydd mewn amgylchiadau eithriadol yn cefnogi'r defnydd priodol o feddyginiaethau diwedd oes mewn cartrefi gofal a hosbisau yn osgoi unrhyw oedi a gofid diangen i gleifion.

6. Mae trefniadau sy'n cefnogi ailddefnyddio meddyginiaethau sydd eisoes ar waith yn eang mewn ysbytai yng Nghymru wedi lleihau gwastraff o ran meddyginiaethau. Mae'n dderbyniol ailddefnyddio meddyginiaethau a gyflenwir i ysbytai a chleifion mewnol lle y bo modd rheoli amodau storio a lle y ceir trefniadau cadw cofnodion priodol ar waith. Prif fferyllwyr sy'n atebol o hyd am ailddefnyddio meddyginiaethau yn yr amgylcheddau hyn.

7. Yn gyffredinol, bydd hosbisau a chartrefi gofal yn gallu rhoi sicrwydd tebyg i ysbytai mewn perthynas â storio meddyginiaethau a chadw cofnodion. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall fod yn briodol cefnogi ailddefnyddio meddyginiaethau mewn amgylchiadau cyfyngedig er mwyn osgoi oedi diangen wrth gael mynediad at feddyginiaethau diwedd oes.

8. Yng ngoleuni effaith ddigynsail COVID-19, mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, wedi llacio ei safbwynt blaenorol i sicrhau bod modd ailddefnyddio meddyginiaethau o dan amgylchiadau penodol cyfyngedig fel yr amlinellir yn y canllaw hwn.

Egwyddorion cyffredinol sy'n cefnogi ailddefnyddio meddyginiaethau

9. Y prif bryder yw cael sicrwydd priodol ynglŷn ag ansawdd, cywirdeb a diogelwch unrhyw feddyginiaeth(au) yr ystyrir eu hailddefnyddio.

10. Y modd mwyaf effeithiol o gael sicrwydd o ansawdd, cywirdeb a diogelwch meddyginiaeth yw drwy gadwyn gyflenwi a reoleiddir, a thrwy eu labelu'n briodol ar gyfer y person y'i cyflenwi ar ei gyfer. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig COVID-19, cydnabyddir y gallai fod yn bosibl sicrhau ansawdd meddyginiaeth fel bod modd ei hailddefnyddio, lle y bo trefniadau ffurfiol ar waith. Dylai'r trefniadau hynny adlewyrchu'r rheini sydd eisoes ar waith mewn ysbytai.

11. Pan fo meddyginiaeth yn cael ei hailddefnyddio mae egwyddorion arferion da ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn cartrefi gofal, fel yr amlinellir yng nghanllawiau gofal cymdeithasol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal Managing medicines in care homes, yn parhau'n gymwys.

Amgylchiadau lle y gallai fod yn dderbyniol ailddefnyddio meddyginiaethau

12. Dim ond ar gyfer ailddefnyddio meddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn i un person gan berson arall y mae'r canllaw hwn yn gymwys. Nid yw'n gymwys i sefyllfaoedd lle y mae hosbis neu, yn llai cyffredin, gartref gofal yn cael cyflenwad at ddefnydd cyffredinol. Yn y sefyllfaoedd hyn dylai'r trefniadau presennol barhau.

13. Pan fo trefniadau lleol[1] yn cael eu rhoi ar waith i ailddefnyddio meddyginiaethau mewn hosbisau a chartrefi gofal, **dim ond** yn ystod y pandemig COVID-19 presennol y gellir eu defnyddio.

14. Yn ogystal â hyn, dylai unrhyw drefniadau lleol sicrhau mai dim ond o dan yr amgylchiadau isod yr ystyrir ailddefnyddio meddyginiaethau:

    - Ar ôl ceisio cael y feddyginiaeth sydd ei hangen o fferyllfa leol, gwasanaeth y tu allan i oriau neu wasanaeth meddyginiaethau diwedd oes COVID-19, ond nid oes unrhyw gyflenwad arall o'r feddyginiaeth ar gael o fewn yr amserlen briodol ac mae angen i'r claf gael y feddyginiaeth ar unwaith;
    - Nid oes unrhyw feddyginiaeth arall addas ar gael i gleifion unigol mewn modd amserol, hy ni ellir rhoi presgripsiwn newydd a chyflenwi'r feddyginiaeth heb achosi oedi a gofid y gellid eu hosgoi fel arall;
    - Mae'r manteision o ailddefnyddio meddyginiaethau yn drech na'r risg ar gyfer y claf;
    - Mae'r meddyginiaethau yr ystyrir eu hailddefnyddio wedi cael eu hasesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol ac yn unol â chanllawiau lleol, i sicrhau eu bod yn addas i'w hailddefnyddio.

Materion eraill i'w hystyried mewn polisïau a gweithdrefnau lleol

15. Yn ogystal â'r materion penodol a nodir uchod, rhaid i bolisïau ddarparu cyngor manwl ar asesiad ffisegol o feddyginiaethau yr ystyrir eu hailddefnyddio, disgrifiad o'r math o weithiwr gofal iechyd proffesiynol a allai ymgymryd â'r asesiad, a gofynion storio a chadw cofnodion ynghyd ag unrhyw ofynion penodol eraill mewn perthynas â chyffuriau a reolir. Mae rhagor o wybodaeth ar yr awdurdod i feddu ar gyffuriau a reolir a'u gofynion storio ar gael gan Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir a Phrif Fferyllydd y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

16. Rhaid i bolisïau lleol fod yn gwbl glir am y math o weithiwr gofal iechyd proffesiynol a all gynnal asesiad o addasrwydd meddyginiaeth i gael ei hailddefnyddio. Rhaid i bolisïau lleol fod yn gwbl glir am bwy all ymgymryd ag asesiad o'r fath mewn cartrefi gofal sy'n darparu gofal personol yn unig (hy heb nyrsio).

17. Dylai gweithdrefnau lleol sicrhau na fydd meddyginiaethau yn cael eu storio yn ddiangen, ac na fydd gormod o feddyginiaethau yn cael eu storio, mewn cartrefi gofal a hosbisau.

18. Dylai gweithdrefnau lleol gynnwys cyngor ar fesurau rheoli heintiau y dylid eu dilyn cyn ailddefnyddio meddyginiaeth, yn arbennig mewn perthynas ag ailddefnyddio unrhyw feddyginiaeth a roddir ar bresgripsiwn i glaf sydd â COVID.

Ymdrin â'r mater o ailddefnyddio meddyginiaethau mewn modd sensitif

19. Dylai polisïau lleol fod yn glir wrth weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gofalwyr, cleifion a'u teuluoedd, mai dim ond yn yr amgylchiadau cyfyngedig ac eithriadol pan na ellir bodloni anghenion claf heb achosi oedi a gofid y gellid eu hosgoi fel arall y dylid ailddefnyddio meddyginiaethau.

[1] Cyfeiria trefniadau lleol at drefniadau y cytunwyd arnynt gan bob bwrdd iechyd lleol perthnasol i'w defnyddio gan gartref gofal neu hosbis yn ei ardal neu y mae'n darparu meddyginiaethau iddo/iddi.

20. Dylai gweithdrefnau lleol sicrhau bod sgyrsiau ynglŷn ag ailddefnyddio meddyginiaethau yn cael eu trin mewn modd sensitif ac yn cael eu cynnal ar adeg briodol yn ystod gofal rhywun, a chyn bod angen ailddefnyddio meddyginiaeth.